# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 3 Rhagfyr 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr haen gyntaf o gwmnïau KB4B, yn ogystal â nodi faint a gyflogwyd ganddynt adeg eu cynnwys yn y rhaglen a faint a gyflogir ganddynt yn awr? (WAQ52846)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae swyddogion yn monitro data allweddol - gan gynnwys lefelau cyflogaeth - ar gyfer yr holl gwmnïau KB4B ac ar hyn o bryd rydym yn adnewyddu'r data hwnnw fel rhan o'n swyddogaeth rheoli cyberthnasau reolaidd. Byddaf yn ysgrifennu atoch o fewn pythefnos gyda'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y grŵp cyntaf o gwmnïau gan gynnwys cyngor ar symud o fewn y gwaelodlin cleientiaid gwreiddiol.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion (a) pa drafodaethau y mae ef neu ei adran wedi'u cael gyda Chyngor Abertawe am gais grant i gynnal gwelliannau amgylcheddol a gwaith iechyd a diogelwch ar lannau Afon Tawe ger Marina Abertawe gan gynnwys; (b) beth yw gwerth y gwaith hwnnw; (c) pa amodau y mae'n ceisio eu gosod ar y Cyngor yng nghyswllt tendro am y gwaith; (d) pa ystyriaethau y mae'n eu rhoi i gwblhau'r gwaith yn y flwyddyn ariannol gyfredol a (e) a fydd unrhyw arian cyfatebol ar gael ganddynt, drwy drafodaethau gyda'r cyngor? (WAQ52820)

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Mae fy swyddogion wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â Dinas a Sir Abertawe i archwilio'r posibilrwydd o roi cymorth i gynllun gwella'r amgylchedd ar lannau Afon Tawe. Yn seiliedig ar amcangyfrifon dangosol, cost y gwaith hwn yw tua £500,000 a byddai angen i unrhyw waith tendro gael ei wneud yn unol â gweithdrefnau tendro safonol y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi bwysleisio bod y trafodaethau hyn ar gam cynnar a bod ariannu'r prosiect eto i gael ei derfynu. Er y bu rhywfaint o drafodaeth gyfyngedig am gyflawni'r gwaith dylunio eleni, nid os unrhyw benderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud eto.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sy'n cael eu hystyried ar gyfer gwaith adfywio ffisegol dan gyllid cydgyfeirio ar gyfer Dinas a Sir Abertawe yn y flwyddyn ariannol nesaf? (WAQ52821)

**Leighton Andrews:** Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol drwy'r Fforwm Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru er mwyn cytuno ar y cyd ar flaenoriaethau ar gyfer adfywio ffisegol.

Ar hyn o bryd mae datganiadau o ddiddordeb ar gyfer arian Cydgyfeirio Ewrop yn cael eu datblygu gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ran y prosiectau canlynol:

Ardal Adfywio Masnachol - Gwell adeiladau yn ardal fasnachol y Ddinas; Y Glannau - Gwaith i hwyluso datblygu ar hyd ardal y Glannau; Gwaith Gwella Ffordd Ystumllwynarth - Gwella cysylltiadau rhwng y ddinas a'i Glannau, a chreu glannau masnachol gweithredol; Canol y Ddinas - Gwaith amgylcheddol i helpu i adfywio ardaloedd yng nghanol Abertawe.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o ddisgyblion yng Nghymru sydd wedi cael eu gwahardd am fod yn hiliol ac a all y Gweinidog roi dadansoddiad ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a fesul pob AALl yng Nghymru? (WAQ52835)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Ni chesglir y wybodaeth am waharddiadau oherwydd Aflonyddu Hiliol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar hyn o bryd. Mae’r tabl canlyniadau yn ymwneud â gwaharddiadau oherwydd Aflonyddu Hiliol ar lefel yr AALl, ar y lefel gynradd ac uwchradd. Mae’n ymwneud ag achosion ac nid disgyblion unigol.

**Gwaharddiadau oherwydd Aflonyddu Hiliol, fesul AALl, 2006/07 (a)**

| | Gwaharddiadau Parhaol | Gwaharddiadau Tymor Sefydlog |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 0 | * |
| Gwynedd | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | * |
| Sir Ddinbych | 0 | 5 |
| Sir y Fflint | 0 | 6 |
| Wrecsam | 0 | 5 |
| Powys | 0 | * |
| Ceredigion | 0 | * |
| Sir Benfro | 0 | * |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 |
| Abertawe | 0 | 10 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | * |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | * |
| Bro Morgannwg | 0 | * |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | * |
| Merthyr Tudful | 0 | * |
| Caerffili | 0 | 8 |
| Blaenau Gwent | 0 | * |
| Tor-faen | 0 | 5 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | * |
| Caerdydd | 0 | 34 |
| Cymru | 0 | 107 |

(a) Ffigurau yn ymwneud ag achosion ym mhob ysgol.
* Lle mae nifer y disgyblion yn llai na phump ond yn fwy na sero, mae’r nifer wedi’i ddatgelu i ddiogelu manylion personol y disgyblion

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Sawl achos o anaf difrifol a fu ar eiddo ysgolion dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ52836)

**Jane Hutt:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu’r wybodaeth hon gan mai cyfrifoldeb Penaethiaid a Llywodraethwyr ar lefel yr ysgol, ac yna’r Awdurod Lleol perthnasol, yw iechyd a diogelwch ysgolion.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Sawl marwolaeth a fu mewn ysgolion yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ52837)

**Jane Hutt:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu’r wybodaeth hon gan mai cyfrifoldeb Penaethiaid a Llywodraethwyr ar lefel yr ysgol, ac yna’r Awdurod Lleol perthnasol, yw iechyd a diogelwch ysgolion.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw newidiadau i'r amodau neu i'r amgylchiadau lle gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gael gafael ar yr Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn sydd wedi cronni? (WAQ52825)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Mae Llywodraeth y Cynulliad bob amser wedi defnyddio Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn ar ôl trafod â Thrysorlys EM. Defnyddir Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn ystod y flwyddyn drwy Amcangyfrifon Seneddol y Gaeaf neu'r Gwanwyn a'i bennu i gyllidebau adrannau drwy Gynnig Cyllidebol Atodol. Yn fy nghyfarfod diweddar â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, cadarnhaodd nad oedd newid i'r weithdrefn hon.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn a gedwir gan y Trysorlys ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ52826)

**Andrew Davies:** Gwnaeth ein Cynigion Cyllideb 2009-10 a gyhoeddwyd ym mis Hydref amlinellu lefelau hanesyddol o Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn. Mae'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn 2007-08 a gronnwyd yn y broses o gael ei derfynu gyda Llywodraeth y DU ac felly dylid trin y ffigurau cronnol ar gyfer cronfeydd Hyblygrwydd diwedd Blwyddyn ar ddiwedd 2007-08 fel rhai dros dro.

**Cronfeydd Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn Cronnol ar ddiwedd bob Blwyddyn Ariannol**

| Blwyddyn Ariannol | £m | | |
|---|---|---|---|
| | Refeniw | Cyfalaf | Cyfanswm |
| 1999/00 | | | 234 |
| 2000/01 | | | 421 |
| 2001/02 | 377 | 1 | 378 |
| 2002/03 | 111 | 89 | 200 |
| 2003/04 | 237 | 51 | 288 |
| 2004/05 | 209 | 61 | 270 |
| 2005/06 | 122 | 66 | 188 |
| 2006/07 | 95 | 145 | 240 |
| 2007/08 | 164 | 224 | 388 |

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithrediad ariannol yr adroddiad cyn y gyllideb. (WAQ52831)

**Andrew Davies:** Mae Adroddiad Rhag-gyllidebol Llywodraeth y DU (PBR) yn cynnwys nifer o fesurau i helpu unigolion, teuluoedd a busnesau drwy'r amseroedd heriol hyn. Mae'n cyd-fynd â dull Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y broses pennu cyllideb hon i helpu pobl lle mae hynny bwysicaf.

Mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn rhoi cyfle i gyflwyno tua £140 miliwn o wariant yn gynharach. Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw manteisio ar y cyfle hwn, sy'n cefnogi gwaith ar ddod â phrosiectau cyfalaf ymlaen, a oedd yn mynd rhagddo eisoes o ganlyniad i Gynadleddau Economaidd Cymru Gyfan ym mis Hydref a mis Tachwedd.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cael cyllideb gyfalaf fach ganlyniadol Barnett o tua £3 miliwn yn 2008/09 a 2009/10.

Rwyf yn gyson wedi datgan y bydd cyllidebau o 2010-11 ymlaen yn sylweddol fwy cyfyngedig na nawr, yn yr un ffordd y mae cyllidebau bellach yn fwy cyfyngedig nag yn ystod cyfnod 1af ac 2il gyfnod y Cynulliad. Mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn gyson â'r safbwynt hwnnw.

Mae'n rhy fuan i ddweud yn union beth fydd effaith Adroddiad Rhag-gyllidebol ar gyllidebau Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol, gan fydd y rhain yn cael eu pennu yn ystod yr Adolygiad Gwario nesaf. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i bennu'r gyllideb mewn modd pwyllog i sicrhau y gellir datblygu ein hagenda Cymru'n Un.